Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 469 HYDREF/TACHWEDD 2024 | AM DDIM

## ELERI'N ENNILL

**-HEINI GRUFFUDD**

Eleri Gwilym o Abertawe enillodd wobr y gynulleidfa yng Nghystadeuaeth Cantorion Cymreig, gynhaliwyd yn y Coleg Cerdd a Drama. Canodd bedair o ganeuon, gan gynnwys cân Brenhines y Nos o'r Zauberflöte, Mozart.

Pum o Gymry Cymraeg gyrhaeddodd y rownd derfynol.

Enillwyd y gystadleuaeth gan Ryan Vaughan Davies.



## CÔR TŶ TAWE'N PERFFORMIO YN LLYS NINI

**-HEINI GRUFFUDD**

Cynhaliodd Côr Tŷ Tawe gyngerdd ddymunol yn Llys Nini, nos Fercher 16 Hydref. Daeth nifer dda i'r neuadd newydd yn Llys Nini, sy'n ganolfan i'r RSPCA yn Abertawe.

Canodd y côr nifer o ganeuon cysylltiedig ag Abertawe, gan gynnwys Y Cwm a Tangnefeddwyr. Unawdydd dwy gân oedd Bill Gannon.



## NERYS HOWELL AC ELINOR SNOWSILL YNG NGHYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS

**-GARETH RICHARDS**




Pleser oedd clywed teithiau bywyd Nerys Howell ac Elinor Snowsill yng Nghyfarfod Hydref y Gymdeithas. Mae'r ddwy yn wynebau cyfarwydd ar ein sgriniau teledu ond mewn gwahanol feysydd. Mae Nerys yn arbenigwraig bwyd a'i merch Elinor, yn chwaraewraig rygbi rhyngwladol. Clywsom am gefndir y ddwy o gefndir diddorol Nerys a'i chysylltiadau a chefn gwlad Caerfyrddin a Thonypandy lle'i magwyd, ei diddordeb mewn gwyddor ty a choginio a'i gyrfa yn hyrwyddo bwydydd Cymreig a'i hangerdd dros goginio. Mae wedi cyhoeddi sawl cyfrol ar baratoi prydau bwyd blasus a chreadigol.


Ar y llaw arall mae Elinor wedi serennu ar y cae rygbi, gan ennill 76 cap dros ei gwlad. Ers ymddeol o chwarae mae'n Arweinydd Datblygu Chwaraewyr ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Cafodd y ddwy eu hurddo i'r Orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ym Mhontypridd.

Croesawyd y ddwy i Dreforys gan Aldyth Williams, Is-gadeirydd y Gymdeithas a chafwyd gair o ddiolch gan Betsan Rosser.

## DARLITHIAU CYMDEITHAS WALDO 2010-2024

-ALUN IFANS




Dyma gasgliad o ddarlithiau ac anerchiadau a drefnwyd gan Gymdeithas Waldo Williams rhwng 2010 a 2024. Ceir amrywiaeth o gyfraniadau, gan gynnwys dadansoddiadau o rai o gerddi'r bardd pwysig hwn ynghyd â chipolwg ar ei gymeriad drwy hanesion ac atgofion rhai a oedd yn ei adnabod.

Mae'n gyfrol ddifyr a gwerthfawr i unrhyw un a fyn ddeall mwy am Waldo Williams a'i waith ac yn gyfrol allweddol o ran dwyn sylw gwlad at un o ffigurau mwyaf ein cenedl ni. Cyfrol raenus, hardd a chyfoethog o feddyliau a dadansoddiadau treiddgar o farddoniaeth, bywyd a bro Waldo.

## HANES SAIN ABERTAWE

-HEINI GRUFFUDD

Beth yw'r cysylltiad rhwng Aled Glynne Davies, Rod Rees, Glynog Davies, Richard Rees, Willie Bowen, Mati Rees, Siân Thomas, Lyn Morgan, Garry Owen, Siân Lloyd, Max Boyce, Siân Sutton ac Andy Bell? Na, nid y BBC, ond Sain Abertawe, yr orsaf radio fasnachol gyntaf yng Nghymru, a oedd yn rhan o gyffro'r byd Cymraeg yn un rhan o dde Cymru yn y '70au a'r '80au.

Ai'r '70au oedd cyfnod ein gobaith mawr am Gymru? Dyma adeg cychwyn grwpiau Ac Eraill, Edward H Dafis, Sidan a Hergest. Cafodd y rhain, Meic Stevens a llawer mwy o sêr Cymraeg eraill, le amlwg ar raglenni'r orsaf. Nid felly'r Trwynau Coch, a waharddwyd, yn ddoeth iawn, gan Wyn Thomas, rhag canu cân am ferched dan bymtheg, ond gwaharddiad oedd hwn a ddygodd fri ac anfri yr un pryd ar y grŵp.

Caiff hanes cyffrous yr orsaf, a gyfrannodd gymaint at y Gymraeg, ei gofnodi, gyda llu o ddanteithion o'r wasg a lluniau eraill yn y gyfrol fywiog hon, wedi ei golygu gan Siân Sutton.

Cyn dyddiau S4C a Radio Cymru, bu cystadleuaeth yn Abertawe i sefydlu un o saith o orsafoedd masnachol Prydain. Collodd grŵp o dan arweiniad Syr Alun Talfan Davies yr ornest, yn erbyn pob disgwyl. Cwmni Sain Abertawe/Swansea Sound gafodd y drwydded, heb fod neb o'i fwrdd yn rhugl yn y Gymraeg. Cadeirydd y bwrdd hwn oedd y Cynghorydd John Allison, a ddaeth yn arweinydd Cyngor Abertawe maes o law. Fodd bynnag, roedd rhaid i'r cwmni newydd ddarlledu 13% o'i raglenni yn y Gymraeg. Mentrodd Wyn Thomas adael HTV i ddod yn Bennaeth Rhaglenni Cymraeg Sain Abertawe. Mae ei ysgrifau dadlennol yn manylu ar hanes cychwyn a datblygu'r orsaf, yr anawsterau a'r llwyddiannau. Mae atgofion byw eraill gan gyfranwyr a gwrandawyr brwd, gan gynnwys rhai o'r uchod a Walis George, Cefin Campbell, Vaughan Roderick, Gareth Wyn, Lyn Morgan, Gari Melville ac eraill.

Yr hyn sy'n amlwg yw gystal y gwnaeth y rhaglenni Cymraeg wreiddio'n sydyn yng nghymunedau'r orsaf oedd yn darlledu o Benfro i Ben-y-bont. Roedd agosatrwydd at y gynulleidfa'n allweddol. Siaradai'r cyflwynwyr iaith y bobl, iaith Cwm Tawe, Cwm Aman a dyffrynnoedd eraill, gan gyfweld â phobl leol, sôn am faterion lleol o bob math, gan gynnwys chwaraeon, byd cerdd a hanes yr ardal.

Roedd amserlen yr orsaf yn feiddgar yng nghyd-destun darlledu'r cyfnod. Roedd bwletinau Cymraeg drwy'r dydd, ac yna byddai rhaglen Gymraeg rhwng 7 a 9 bob nos, a rhaglen arbennig nos Sul. Uchafbwynt yr orsaf oedd darlledu trwy'r nos yn y Gymraeg yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Lliw yn 1980.

I ba raddau llwyddodd Sain Abertawe i wthio darlledu Cymraeg yn ei flaen? Rhoddodd gychwyn i yrfa degau o ddarlledwyr. Cyn pen dim sefydlwyd Radio Cymru, ac yna, yn 1982, enillwyd yr ymgyrch i gael sianel deledu i Gymru. Mae hi'n eironig mai'r llwyddiant hwn barodd anawsterau i Sain Abertawe wrth i amserlen y sianel gystadlu â'r newydd-ddyfodiaid hyn. Llwyddodd Sain Abertawe, fodd bynnag, trwy gynnig gwasanaeth mwy lleol.

I'r sawl sy'n ymddiddori yn hanes darlledu, yn hanes y Gymraeg yn y de, ac i'r rai sydd am ddwyn atgofion o gyffro'r cyfnod, bydd y gyfrol hon wrth eu bodd.

## CANU YN Y RAILWAY

-DAFYDD WILLIAMS



Gyda cherddoriaeh o'r radd flaenaf, tywydd hyfryd haf bach Mihangel a chwrw tafarn y Reilwe, Cilâ gystal ag erioed bydd Sesiwn Acwstig Abertawe 2024 yn aros yn hir yn y cof.

Gareth Bonello a Brigyn oedd ymhlith y sêr a ddiddanodd tyrfa sylweddol, ynghyd â Bethan Nia, Danny Sioned, Dewi a Manon. Diolch i Tomos a staff Menter Abertawe am drefnu a rhedeg sesiwn Gymraeg mor wych.

## CYNGERDD YSTUMLLWYNARTH

-HEINI GRUFFUDD

Llanwyd eglwys Ystumllwynarth nos Iau, 24 Hydref pan gynhaliwyd cyngerdd i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2025.

Cafodd y gynulleidfa wledd yn gwrando ar gorau ysgolion Cymraeg Bryn-y-môr a Llwynderw, a hefyd Gôr y Gweilch a Chôr Tŷ Tawe. Ymunodd y corau gyda'i gilydd ar ddiwedd y gyngerdd i ganu Hafan Gobaith.

Arweiniwyd côr Llwynderw gan Sammy Bond ac Angharad Bean, gyda Bethan Wynne Phillips yn cyfeilio. Linda Willliams oedd arweinydd côr Bryn-y-môr, a Chris Lewis ar y piano. Chris Lewis arweiniodd Gôr y Gweilch a Berian Lewis ar y piano. Bethan Wynne Phillips oedd arweinydd Cór Tŷ Tawe, a Chris Lewis yn cyfeilio.

Ymysg yr uchafbwyntiau roedd Cadwyn Disney gan Lwynderw; Adiemus Karl Jenkins gan Fryn-y-Môr; Sanctus gan Gôr y Gweilch; a'r Cwm, Huw Chiswell, gan Gôr Tŷ Tawe.

Trefnwyd y gyngerdd gan Bwyllgor De Gwyr.





Lluniau: y corau'n canu Hafan Gobaith gyda Bethan Wynne Phillips yn arwain; rhai o Gôr Ty Tawe

## NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

### DIWRNOD T.LLEW JONES

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

A hithau'n ddiwrnod T.Llew Jones yr wythnos hon, diolch i ddisgyblion Chweched Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe am arwain gwasanaeth i gofio amdano. Mae Bl.7 hefyd yn edrych ymlaen at helfa drysor T.Llew Jones yn eu gwersi Cymraeg.



### TAITH I'R LLYFRGELL GENEDLAETHOL

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Aeth llond bws o fl.7 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe ar daith i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Cawsant gyfle i weld rhai o drysorau'r Llyfrgell a thaith o gwmpas y storfeydd. Ymddengys i bawb fwynhau'r ymweliad â McDonalds ar y ffordd adref hefyd!









## CYMRU MEWN PENWYTHNOS!

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Aeth criw o'r disgyblion sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe ar daith 'Cymru mewn Penwythnos'. Ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol oedd gyntaf lle cawsom sgwrs gyda'r Athro Mererid Hopwood. Yna ymlaen â ni at ein llety am y penwythnos, sef Coleg y Bala, a mwynhau 'take away'ar y nos Wener. Fore Sadwrn, galwon ni heibio Llyn Tryweryn cyn ymweld â'r Ysgwrn, cartref Hedd Wyn a'r gofeb iddo yn Nhrawsfynydd. Ymlaen â ni wedyn i Flaenau Ffestiniog i weld ardal Gwyn Thomas cyn mwynhau cinio ym Mhorthmadog. Rhyd-ddu oedd y lleoliad nesaf er mwyn gweld cartref T.H.Parry Williams, cyn cael cyfle i hamddena a mwynhau clywed y Gymraeg ar strydoedd Caernarfon. Ym mhob lleoliad, roedd cyfle i oedi a darllen ambell gerdd. Nôl â ni wedyn i ardal y Bala ar y nos Sadwrn a chael pryd o fwyd hyfryd ym mwyty'r Eagles. Fore Sul, i Blas Machynlleth aethon ni i gwrdd â Manon Steffan Ros a mwynhau clywed am ei gwaith fel awdur. Wedi cinio, cawsom sgwrs ar y Cei yn Aberteifi gyda Ceri Wyn Jones ac yna galw i weld cofeb Waldo ym Mynachlog-Ddu cyn ymlwybro nôl i'r ysgol wedi llwyddo gweld Cymru mewn penwythnos!






## TRIDIAU YN CONNEMARA!

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Ym mis Awst cafodd Kiera Hopkins ac Ellie Mae Ace o flwyddyn 13 y cyfle bythgofiadwy o deithio i Connemara gyda chriw o bobl ifanc eraill. Project oedd hwn ar y cyd rhwng yr Urdd a TG Lurgan. Mae TG Lurgan yn brosiect cerddorol a lansiwyd gan Goleg Lurgan, ysgol haf annibynnol wedi'i lleoli yn Connemara, Gaeltacht, lle mai'r Wyddeleg yw'r brif iaith a siaredir. Mae TG Lurgan yn rhyddhau dehongliadau o alawon poblogaidd gyda geiriau newydd yn yr iaith Wyddeleg. Pwrpas TG Lurgan yw helpu a chefnogi dysgwyr i gaffael yr iaith Wyddeleg ac mae eu sianel YouTube yn blatfform ieithoedd lleiafrifol sy'n arwain y byd.

Dros y tridiau roedd y criw wedi recordio fersiwn Gymraeg a Gwyddeleg o gân Florence and the Machine, Dog Days Are Over. Bwriad y project oedd hybu ieithoedd a diwylliannau lleiafrifol. cafodd y merched amser bendigedig yn cymdeithasu, gwneud ffrindiau, aros mewn cartref Gwyddelig a ffilmio'r gân ar y traeth.

Uchafbwynt y daith oedd y noson olaf lle cafodd pawb y cyfle i berfformio ar y llwyfan a rhannu ychydig o'u diwylliant. Bydd criw TG Lurgan yn dod i Lan Llyn ym mis Ebrill ac mae'r merched yn gobeithio bod yn rhan o'r project hwnnw hefyd.

Gallwch weld y gân ar gyfrif youtube TG Lurgan ac ar gyfrifon yr Urdd.





## PENCAMPWRIAETH FEW WADO YNG NGHYPRUS

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau mawr i Chloe Lewis o flwyddyn 13 a enillodd fedal efydd ym mhencampwriaeth Karate FEW yng Nghyprus dros y gwyliau hanner tymor. Roedd Chloe allan yno yn cystadlu gyda ei brawd Caian sydd ym mlwyddyn 9, Freya Williams o flwyddyn 7 a Niah Williams o flwyddyn 11. Cafodd y pedwar cryn dipyn o lwyddiant! Gyda lwc bydden nhw'n cystadlu yng Ngwlad Pwyl cyn y Nadolig.





# NEWYDDION MENTER IAITH ABERTAWE

## BUSNESAU LLEOL YN HAPUS I SIARAD CYMRAEG!

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod Shwmae Su'mae 2024, mae swyddogion Menter Iaith Abertawe wedi bod yn ymweld â busnesau lleol yn Llangyfelach, Pontarddulais, a Clydach er mwyn eu hannog i ymuno â chynllun 'Hapus i Siarad'.

Mae'r ymgyrch, sy'n bartneriaeth rhwng Mentrau Iaith a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn cynnig cymorth ac adnoddau i siopau a busnesau bach lle mae aelod o staff yn siarad Cymraeg. Wedi cynllun peilot llwyddiannus yn siroedd Rhondda Cynon Taf, Ceredigion a Fflint a Wrecsam yn gynharach eleni, mae busnesau trwy Gymru gyfan bellach yn cael cyfle i ymuno â'r cynllun ac arddangos poster sy'n dangos eu bod yn 'hapus i siarad' Cymraeg â'u cwsmeriaid. Mae'r pecyn adnoddau hefyd yn cynnwys bathodynnau a syniadau am sut i annog pobl, yn enwedig dysgwyr, i siarad Cymraeg a magu hyder.

Mae dysgwyr, sy'n dilyn cyrsiau gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, wedi derbyn cardiau er mwyn casglu stampiau wrth sgwrsio yn Gymraeg gyda staff. Bydd y rhai sy'n llenwi'r cerdyn a'i ddychwelyd at eu tiwtoriaid cyn diwedd mis Mawrth 2025 yn cael cyfle i ennill penwythnos preswyl i ymarfer neu wella eu Cymraeg.
Mae croeso i berchnogion busnes gysylltu â'u Menter Iaith leol neu Fentrau Iaith Cymru i ymuno â'r cynllun.

Pwy sy'n 'Hapus i Siarad' yn ein hardal ni?

1. Caffi Lliw
2. Pantri Catrin
3. Llyfrgell Clydach
4. CJR Plastering
5. Law i Law
6. Coaltown Pontarddulais
7. King Fish Bar
8. Shape Up Barbers
9. Bocs Bwyd Sandwich Shop
10. Motley Pie & Coffee Pontarddulais

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Hydref/Tachwedd.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Tachwedd/Rhagfyr erbyn Tachwedd 25ain trwy ebostio Anys at:

**datblygu@menterabertawe.org**

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG Dysgu Learn

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

## BOREAU COFFI NEWYDD

Rydym wedi cychwyn 3 bore coffi newydd mewn ardaloedd gwahanol ar draws Abertawe. Cyfle gwych i ymarfer dy Gymraeg yn dy ardal leol

Dydd Llun/Mon - Coaltown Coffee Roasters, Pontarddulais
Dydd Mawrth/Tues - Caffi Lliw, Felindre
Dydd Mercher/Weds - Pantri, Clydach
10am - 12pm

Croeso cynnes i siaradwyr o bob lefel.




## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

08.11 - Skylrk (Mission Gallery)
16.11 - N'famady Kouyate (Elysium)
21.11 - Mared (Coaltown Pontarddulais)
22.11 - Adwaith (Elysium)
29.11 - Steve Eaves a Rhai Pobl (Tŷ Tawe)
01.12 - Melys (The Bunkhouse)
16.12 - Georgia Ruth (Taliesin)













Tocynnau:menterabertawe.org







'COOL HEAD'
Out Now / Allan Nawr
georgiaruth.co.uk

menter iaith abertawe